Cyllid & Thollau EF



# Bydd y nodiadau hyn o gymorth i chi wrth lenwi'r ffurflen CIS - cofrestru partneriaeth, CIS304

## Cofrestru ar gyfer taliadau gros

Gallwch gofrestru ar gyfer Cynllun y Diwydiant Adeiladu a gwneud cais am daliadau gros ar-lein neu drwy argraffu ac anfon ffurflen drwy'r post.

## Cofrestru ac amodau taliadau gros

Er mwyn gwneud cais i gofrestru drwy Gynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) a sicrhau y caiff taliadau gan gontractwyr eu talu i'r bartneriaeth yn llawn, mae'n rhaid i'ch busnes fodloni pob un o'r amodau canlynol:

- mae'n cael ei redeg yn y DU gyda chyfrif banc
- mae ganddo drosiant net o £30,000 bob blwyddyn ar gyfer pob partner neu o leiaf £100,000
- mae'r bartneriaeth a'r partneriaid wedi cydymffurfio ag ymrwymiadau treth penodol

Gelwir y profion hyn yn brofion busnes, trosiant a chydymffurfio, a chânt eu hegluro isod.

## Prawf busnes

I basio'r prawf hwn, mae'n rhaid i'ch busnes wneud y canlynol:

- gallu dangos i ni ei fod yn cynnal gwaith adeiladu yn y DU neu'n darparu llafur ar gyfer gwaith o'r fath
- cael ei redeg drwy gyfrif banc

## Prawf trosiant

Mae'r prawf hwn yn seiliedig ar 'drosiant net'. Dyma incwm gros eich gwaith adeiladu, ac eithrio TAW a chost deunyddiau. Mae'r prawf yn ystyried trosiant net yn ystod y 12 mis cyn eich cais am daliadau gros.

Gall partneriaethau sefyll y prawf safonol neu'r prawf amgen. Er mwyn pasio'r prawf safonol, mae'n rhaid i'r bartneriaeth allu dangos trosiant adeiladu net sydd o leiaf £30,000 ar gyfer pob partner, yn y cyfnod o 12 mis cyn dyddiad y cais am daliadau gros.

Er mwyn pasio'r prawf amgen, mae'n rhaid i'r bartneriaeth allu dangos trosiant net sydd o leiaf £100,000 yn ystod yr un cyfnod.

Os nad yw trosiant adeiladu net y bartneriaeth yn ddigon i basio'r prawf trosiant, ond mae cyfanswm ei throsiant o bob ffynhonnell yn y 12 mis hyd at y cais yn fwy na'r trothwy, mae'n dal i fod yn bosibl i chi basio'r prawf. Gweler tudalennau 4 ac 5 am ragor o wybodaeth.

**Cysylltiadau**

**Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF**
Ffôn 0300 200 1900

**Y we**
www.gov.uk/cis

Mae'r llyfryn hyn ar gael mewn print bras. Os hoffech gopi, cysylltwch â'ch swyddfa Cyllid a Thollau EF.

Ffoniwch 0300 200 1900 i gael fersiynau Cymraeg o ffurflenni a chanllawiau.

### Prawf cydymffurfio

Er mwyn pasio'r prawf cydymffurfio, yn ystod y 12 mis hyd at ddyddiad y cais am daliadau gros, mae'n rhaid i chi ac unrhyw bartneriaid busnes fod wedi gwneud pob un o'r canlynol:

- llenwi a chyflwyno pob Ffurflen Dreth Hunanasesiad erbyn y dyddiadau cau
- llenwi a chyflwyno pob datganiad misol fel contractwr yn y diwydiant adeiladu erbyn y dyddiadau cau
- llenwi a chyflwyno pob Ffurflen TAW erbyn y dyddiadau cau
- talu unrhyw dreth TWE a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) sy'n ddyledus gennych fel cyflogwr erbyn y dyddiadau cau
- talu unrhyw ddidyniadau sy'n ddyledus gennych fel contractwr yn y diwydiant adeiladu erbyn y dyddiadau cau
- talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) eich hun erbyn y dyddiadau cau
- talu pob rhwymedigaeth TAW sy'n ddyledus gennych erbyn y dyddiadau cau
- cyflwyno unrhyw wybodaeth rydym wedi gofyn amdani ynglŷn â'ch treth

Wrth ystyried a ydych wedi pasio'r prawf cydymffurfio, byddwn yn anwybyddu rhai, neu hyd yn oed pob un, o'r agweddau canlynol yn ystod yr un cyfnod o 12 mis:

- tri achos o gyflwyno datganiad misol y contractwr yn hwyr - hyd at 28 diwrnod yn hwyr
- tri achos o gyflwyno Ffurflen TAW yn hwyr - hyd at 28 diwrnod yn hwyr
- tri thaliad hwyr o ddidyniadau TWE/TAW/CIS o £100 neu fwy - hyd at 14 diwrnod yn hwyr (caniateir hyn ar gyfer pob treth yn unigol)
- unrhyw daliad hwyr o ddidyniadau TWE/TAW/CIS lle mae'r swm yn is na £100
- cyflwyno unrhyw Ffurflen Dreth Hunanasesiad hyd at 28 diwrnod yn hwyr

Caiff y prawf cydymffurfio ei drin fel un a fodlonir gan y cwmni os oes gan un neu fwy o'r partneriaid statws taliadau gros ar adeg y cais a bod gan y partner hwnnw neu'r partneriaid hynny hawl gyda'i gilydd i gyfran o leiaf hanner yr asedion, neu o leiaf hanner incwm y cwmni. Fodd bynnag, pe bai'r cwmni'n ennill statws taliadau gros fel hyn, ni all y partner sydd eisoes â statws taliadau gros fod wedi ei gael fel hyn neu yn yr un modd i gwmnïau.

Os bydd eich cais i gael taliadau gros yn aflwyddiannus, bydd eich taliadau CIS yn cael eu talu ar ôl didynnu treth ar gyfrif eich bil treth ac Yswiriant Gwladol yn y pen draw. Byddwn yn ysgrifennu atoch gan nodi'r rhesymau gwirioneddol, yn amodol ar reolau cyfrinachedd, pam eich bod wedi bod yn aflwyddiannus ynghyd â chyfarwyddiadau ar sut y gallwch apelio.

## Llenwi'r ffurflen gofrestru

### Help ac arweiniad

Dylai'r bartneriaeth benderfynu pa bartner fydd yn cael ei adnabod fel y partner sy'n cofrestru, gan mai cyfrifoldeb y partner sy'n cofrestru fydd llenwi'r ffurflen gofrestru. Bydd angen cofrestru'r bartneriaeth, yn ogystal â'r partner sy'n cofrestru, ar gyfer Hunanasesiad.

Bydd y nodiadau arweiniad hyn yn eich helpu i lenwi'ch ffurflen gofrestru. Nid ydynt yn cynnwys nodiadau ar gyfer pob blwch - dim ond nodiadau ar gyfer y blychau hynny a allai beri problemau i chi, neu'r rhai lle y bydd rhagor o wybodaeth o ddefnydd i chi. Rydym yn hapus i helpu os hoffech help gydag unrhyw beth. Ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900.

Dylai unrhyw Ymddiriedolaethau sydd am gofrestru ar gyfer CIS ddefnyddio'r ffurflen hon a ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF er mwyn cael arweiniad i'w llenwi.

## Manylion y partner sy'n cofrestru

4 **Rhif Yswiriant Gwladol y partner sy'n cofrestru, os oes un gennych**
Gallwch ddod o hyd i'ch rhif Yswiriant Gwladol ar y dogfennau canlynol:

- eich bil cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 2 neu Ddebyd Uniongyrchol y banc
- unrhyw ddogfen neu lythyr gan y Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, yr Asiantaeth Budd-daliadau neu'r Adran Gwaith a Phensiynau
- unrhyw ohebiaeth gan CThEF sy'n dangos eich rhif Yswiriant Gwladol

Os nad oes gennych rif Yswiriant Gwladol, bydd angen i chi ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 i gael cyngor ar beth i'w wneud.

## Manylion y bartneriaeth

10 **Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR)**
Nodwch gyfeirnod y bartneriaeth a gawsoch at ddibenion Hunanasesiad ar adeg cofrestru'r bartneriaeth. Mae hwn hefyd i'w weld ar eich Ffurflen Dreth, Datganiadau, neu hysbysiadau Taliadau ar Gyfrif. Os nad oes UTR gan y bartneriaeth, na'r partner sy'n cofrestru, ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 am ragor o wybodaeth.

## Prawf trosiant

32 Er mwyn gweld a yw'r bartneriaeth yn gymwys ar gyfer statws taliadau gros, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni sawl partner sydd yn y bartneriaeth. Dylech nodi'r nifer fwyaf a oedd yn y bartneriaeth yn ystod y cyfnod o 12 mis hyd at ddyddiad y cais hwn. Pan fo aelod o bartneriaeth yn gwmni yn ei enw ei hun, bydd rhaid i drothwy trosiant y cwmni fod yn seiliedig ar nifer y cyfarwyddwyr a chyfranddalwyr pan fo'n gwmni caeedig.

Os ydych yn Ymddiriedolaeth, dylech nodi manylion yr ymddiriedolwyr yn yr adran 'Manylion y partneriaid eraill' ar dudalen 3, a'r nifer o ymddiriedolwyr ym mlwch 32.

Byddwn yn cynnal gwiriadau, a gallwn wrthod cais os ydym o'r farn bod nifer y partneriaid wedi'i danddatgan. Efallai y codir cosb arnoch.

33 Os yw'ch trosiant net o waith adeiladu yn y 12 mis diwethaf gymaint â neu'n fwy na £30,000, x nifer y partneriaid a ddangosir ym mlwch 32 yn gymaint â neu'n fwy na £100,000, llenwch y blychau.

**A. Swm gros y taliadau (heb gynnwys TAW)**
I gyfrifo'r swm hwn, adiwch yr holl incwm a gawsoch o waith adeiladu, gan gynnwys cost y deunyddiau yr ydych wedi'u cyflenwi yn ystod y cyfnod. Peidiwch â chynnwys TAW.

Mae incwm adeiladu yn cynnwys unrhyw arian gan gleient am waith adeiladu, er enghraifft:

- gosod
- atgyweirio
- plymio
- gwaith trydanol
- paentio ac addurno
- dymchwel

**B. Cost deunyddiau (heb gynnwys TAW)**

Er mwyn cyfrifo hwn, adiwch yr holl symiau yr ydych wedi'u gwario ar ddeunyddiau rydych wedi'u defnyddio yn ystod y cyfnod. Peidiwch â chynnwys TAW.

Mae 'deunyddiau' yn golygu cost (heb gynnwys TAW):

- tir, deunyddiau adeiladu a defnyddiau traul
- tanwydd neu beiriannau
- y swm gwirioneddol a wariwyd gennych ar logi peiriannau

**Peidiwch â chynnwys y canlynol**:

- treuliau teithio
- tanwydd ar gyfer teithio
- cost prynu sgaffaldau os yw eich busnes yn isgontractiwr sgaffaldau

**C. Trosiant adeiladu net (A llai B)**

Nodwch fanylion yn ôl yr angen.

| **Enghraifft – am bartneriaeth gyda 3 phartner** | |
|---|---|
| Swm gros y taliadau (heb gynnwys TAW) | £ 120,000.00 |
| Llai cost deunyddiau (heb gynnwys TAW) | £ 25,000.00 |
| Trosiant net o waith adeiladu | £ 95,000.00 |
| Nifer y partneriaid 3 x £30,000 | £ 90,000.00 |
| Mae'r trosiant adeiladu net yn fwy na'r terfyn statudol - mae'r bartneriaeth yn pasio'r prawf trosiant. | |

Fel rhan o'r prawf trosiant, mae'n rhaid i chi allu darparu tystiolaeth er mwyn dangos sut y gwnaethoch gyfrifo'r ffigurau a ddefnyddiwyd yn y prawf. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod wedi cael trosiant adeiladu net sydd o leiaf £30,000, x nifer y partneriaid neu £100,000 yn ystod cyfnod y cais.

Os nad yw'ch busnes yn ymwneud yn bennaf â gweithrediadau adeiladu, ac os nad yw'ch trosiant adeiladu net yn gymaint â neu'n fwy na £30,000 x nifer y partneriaid, neu £100,000, ond os yw cyfanswm trosiant eich busnes o bob ffynhonnell yn y 12 mis hyd at ddyddiad y cais yn fwy na'r trothwy, mae'n dal i fod yn bosibl i chi wneud cais am daliadau gros. Nodwch fanylion trosiant gros y bartneriaeth ynghyd â swm y trosiant adeiladu ar ddalen ar wahân.

Hefyd, bydd angen i chi roi enwau a chyfeiriadau'r contractwyr a weithiwyd iddynt, gwerth pob contract a'r dyddiad y cytunwyd ar y contract.

Rhaid i dystiolaeth ddangos, ar gyfer y cyfnod yr ydych wedi'i ddefnyddio:

- dyddiad y daeth y taliadau i law
- swm gros yr holl daliadau a ddaeth i law drwy Gynllun y Diwydiant Adeiladu
- taliadau gros llai TAW ar gyfer unrhyw waith preifat
- cost y deunyddiau (llai TAW) a ddefnyddiwyd

Codir cosbau am wneud ceisiadau ffug. Os byddwch yn rhoi gwybodaeth ffug, ni fyddwch yn cael statws taliadau gros ac efallai y codir cosb hyd at £3,000 arnoch.

## Preifatrwydd a Diogelu Data

**Sut yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth**

Mae Cyllid a Thollau EF yn Rheolwr Data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a bennir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys asesu a chasglu trethi a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddynt. Os gwnawn hynny, bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn caniatáu yn unig, a hynny er mwyn gwneud y canlynol:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus

Efallai y byddwn yn cymharu gwybodaeth a gawn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis asiantaethau neu adrannau eraill o'r llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EF, oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny.

Am ragor o wybodaeth ewch i www.gov.uk a defnyddiwch y cyfleuster chwilio i ddod o hyd i'r adran Deddf Diogelu Data.